



Fi wyt ti...
stori wir
gan
john evans
a
steph hill
CLECS MEDIA


DWI BOB TRO'N DWEUD NAD OEDD GEN I FFRINDIAU
DWI'M YN GWYBOD...EFALLAI MOD I. EFALLAI MOD I DDIM.
OND ROEDD SOPHIE'N WAHANOL....
..AC ROEDDWN I'N TEIMLO'N LWCUS.



ROEDD GANDDI GARIAD...
2 of 2
Comment
Share
...DEAN!
ROEDD EI FFRINDIAU'N LOETRAN GYDA NI. YN SGWRSIO HEFO NI FEL PETAE NI'N UN OHONYN NHW...DIM FEL PLANT BACH.
HWN OEDD Y TRO CYNTAF I FI DRIO CANABIS.
DOEDDWN I DDIM ISHO TYNNU LLUN...
...OND FE WNAETH DDIGWYDD RHYWFFORDD.


ROEDD HEINA'N TEIMLO FEL DYDDIAU DA. ROEDDWN I'N CAEL ANRHEGION GAN Y BOBL CŴL YMA.
NESH I DDIM BWRIADU CYMRYD CYFFURIAU.
NATH O DDIGWYDD.
ROEDD SOPHIE...
...NEU ELLA DEAN?..
HEFO PETH BOB TRO...GAN EI ROI AM DDIM...WEL...
MAE'N YMDDANGOS NAD OEDDA NHW'N ROI O AM DDIM. YCHYDIG DDYDDIAU WEDYN GOFYNNODD UN O'I FFRINDIAU FO I FI AM £20.
NES I SMALIO MOD I DI ANGHOFIO A DWEUD Y BYSWN I'N DOD Â'R ARIAN FORY.


NESH I OFYN I DAD AM YR ARIAN... NATH O WRTHOD... FEDRAI'M COFIO'N IAWN PAN WNAETH O DDEUD NA. DOEDDWN I'M YN POENI...
FELLY WNES I EI DDWYN O'I WALED.
Dad
home
NES I DALU'R ARIAN...OND ACHOS MOD I'N HWYR ROEDD RHAID I MI DALU MWY...£40!...YNA £60... ROEDDWN MEWN DYLED FAWR.
ROEDD SOPHIE YN TECSTIO FI. ROEDD O'N NEWID I GYD.
NESH I GUDDIO. NESH I DDEUD MOD I'N SÂL...COLLI'R YSGOL A PHETHAU ERAILL.
Sophie
Hey babes how's you
??????
Are you their?
Hey babe, you ok, heard nothing back from you????
Oi!
WHERE ARE YOU!
Answer your phone
Dean is on my case!!


FE WNAETH SOPHIE YRRU HWN O TU ALLAN I TŶ.
DWI'N GWBOD BOD CHDI FEWN...
SORTIA BE SY ARNA TI. DWI'N MYND I DRWBL DIFRIFOL FELLY MAE RHAID I CHDI EI GAEL.
METHU TALU?
YNA BYDD RHAID I CHDI DALU MEWN FFORDD ARALL!
Mae Dean yn dod I dy weld di
14 58
Hey
ROEDDWN WEDI FY NAL AC AR BEN FY HUN.
NESH I WELD O A MI NATH O DDEUD WRTHA FI MOD I'N GORFOD EI DALU FO I GYD YN ÔL. DUDODD O Y BYSWN I'N GALLU DANFON CYFFURIAU IDDO FO NEU FOD YN FWY CYFEILLGAR EFO'I FFRINDIAU... ...NESH I DDIM...WEL...
GESH I HEN FFÔN A'R HOLL BECYNNAU, TI'N GWBOD **CYFFURIAU**. O'N I'M YN MEDDWL Y GALLWN I FOD Â MWY O OFN, OND FE RODDODD **GYLLELL** I MI... I AMDDIFFYN FY HUN... DYNA DDUDODD O.
BUASWN I'N CYFARFOD POBL MEWN GWAHANOL LEFYDD, GWAHANOL DREFI, PENTREFI. DYDD. NOS. NID OEDDWN I'N GWBOD LLE ROEDDWN I BELLACH. ROEDDWN I'N PASIO'R CYFFURIAU YMLAEN, GWNEUD PRES IDDYN NHW A CHAEL GWYBOD Y BYDDAI £50 O'R DDYLED YN MYND. OND ROEDD Y DDYLED YN CODI O HYD.
ROEDDWN I'N CAL DYDDIAU DA LLE ROEDDWN YN MYND DRWYDDI.
ROEDD DYDDIAU ERAILL LLE ROEDDWN YN COLLI'R ARIAN. ROEDDWN MEWN TRWBL WEDYN.


HWN OEDD Y DIWRNOD NEWIDIODD POB DIM
BBBBRRRRRRRRRRR
ROEDD RHAID I BETHAU NEWID!
KLOK
KLOK
KLOK
KLOK
KLOK


HWN OEDD Y DIWRNOD Y GWNAETHON NHW FY MRIFO!
AHHHHHHHHHHHHHHH! AHHHHHHHH!! AHHG....
BANG!
BANG!
HWN OEDD Y DIWRNOD Y DES I O HYD I BOBL I'M HELPU.
BRRRRMMMM
SCREEEEEEECH
DYMA'R DIWRNOD Y DYWEDAIS Y GWIR WRTH BOBL.
Dad
home
DYMA'R DWRNOD NESH I'M TEIMLO AR BEN FY HUN WEDYN.


RING!RING!
FYDD BOB DIM YN OCE. IAWN?
Dad
home
RING!RING!
PWY WYT TI?
FI WYT TI.....
FI YDY'R FERCH TI DI NABOD ERS YSGOL GYNRADD... FI YDY'R BACHGEN SY'N DDA MEWN CHWARAEON. FY YDY CLOWN Y DOSBARTH....
....A'R UN DISTAW YN Y GORNEL.. FI YDY'R UN TI ERIOED WEDI SIARAD FO NHW...A FI YDY DY FFRIND GORAU...
FI YDY CHDI....PAID Â BOD YN FI.